# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gosod Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle** |
| **DYDDIAD** | **07 Tachwedd 2023** |
| **GAN** | **Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Heddiw, rwyf wedi gosod yr is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu'r diwygiadau Ailgylchu yn y Gweithle. Bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithle busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wahanu deunyddiau allweddol y gellir eu hailgylchu yn y ffordd y mae aelwydydd eisoes yn ei wneud ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Mae'r camau hyn yn hanfodol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a ddatganwyd gan y Senedd, ac mae'n dangos cynnydd sylweddol tuag at economi gryfach, wyrddach fel yr ymrwymwyd iddo yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r tri Offeryn Statudol (OSau) sy'n rhan o'r diwygiadau Ailgylchu yn y Gweithle wedi'u trefnu ar gyfer dadl lawn ar 28 Tachwedd, ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2024. Sef:

***Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023***

Mae'r OS hwn yn nodi'r gofyniad i safleoedd annomestig (gan gynnwys busnesau, elusennau a chyrff yn y sector cyhoeddus) gyflwyno deunyddiau ailgylchadwy penodol i'w casglu ar wahân; ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n casglu'r deunyddiau ailgylchadwy penodedig o eiddo annomestig eu casglu ar wahân i ddeunyddiau ailgylchadwy eraill a gwastraff gweddilliol; ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r deunyddiau ailgylchadwy a gesglir gael eu cadw ar wahân ac nid eu cymysgu. Bydd hyn yn gwella ansawdd a nifer y deunyddiau ailgylchadwy a gasglwn o weithleoedd, a fydd yn ei dro yn cadw deunyddiau pwysig i'w bwydo'n ôl i economi Cymru, tra hefyd yn gwella cysondeb y ffordd yr ydym yn casglu ac yn rheoli ailgylchu yng Nghymru.

***Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023***

Mae'r OS hwn yn ymestyn gwaharddiadau presennol i gynnwys deunyddiau ailgylchadwy ychwanegol y gellir eu casglu ar wahân o safleoedd annomestig a domestig i'w gwahardd rhag eu llosgi a mynd i safleoedd tirlenwi. Mae hefyd yn gwahardd pob gwastraff pren o safleoedd tirlenwi. Bydd hyn yn sicrhau bod y deunyddiau ailgylchadwy penodedig a gesglir o safleoedd annomestig yn unol â'r Rheoliadau Gwahanu Gwastraff yn cael eu hailgylchu fel y bwriadwyd, fel nad ydynt yn cael eu gwastraffu drwy gael eu llosgi neu eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi.

***Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffosydd (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023***

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n ategu y gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd o eiddo annomestig. Bydd hyn yn sicrhau nad yw gweithleoedd yn gosod technolegau i hwyluso gwaredu gwastraff bwyd i garthffos fel ffordd o osgoi'r gofyniad i wahanu gwastraff bwyd i'w ailgylchu. Bydd hefyd yn gwahardd gweithleoedd sy'n gwaredu eu gwastraff bwyd fel hyn rhag gwneud hynny, gan y gall gwaredu gwastraff bwyd i garthffos orlwytho'r system garthffosiaeth ac achosi rhwystrau. Mae peidio â thrin y gwastraff bwyd yn briodol hefyd yn arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr a cholli'r gallu i adfer ynni a maetholion gwerthfawr.

Bydd y rheoliadau’n darparu ar gyfer cosbau sifil hefyd mewn perthynas â throseddau sy’n gysylltiedig â’r holl ofynion hyn.

Mae'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn adeiladu ar ein diwygiadau llwyddiannus ar gyfer ailgylchu yn y cartref, lle mae ein cyfradd uchel o ailgylchu yn arbed tua 400,000 tunnell o garbon inni bob blwyddyn. Ochr yn ochr â'r hanfodion amgylcheddol, bydd cyflwyno'r dull hwn o weithredu yn ein gweithleoedd yn cynnig buddion i'r economi trwy ddal cyflenwad gwydn o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu o ansawdd uchel, gan greu cyfleoedd gwaith ac ysgogi buddsoddiad. Gyda chost deunyddiau yn cyfrannu at gostau byw cynyddol, bydd cadw deunyddiau a ailgylchwyd o ansawdd uchel yn economi Cymru yn fwy effeithiol yn gwella effeithlonrwydd adnoddau a lleihau ein dibyniaeth ar echdynnu adnoddau crai.

Mae ymgyrch gyfathrebu genedlaethol hefyd wedi'i lansio i sicrhau ymwybyddiaeth a chefnogi gweithleoedd i fod yn barod. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch genedlaethol, cyhoeddi canllawiau sector-benodol, post uniongyrchol i bob gweithle, astudiaethau achos ac adnoddau eraill i gefnogi gweithleoedd i fod yn barod i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

Gellir gweld yr offerynnau statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig a'r Asesiadau Effaith Integredig yma. Ochr yn ochr â hyn, rwyf hefyd yn cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol y gellir ei weld yma.

Bydd y *Casgliad Deunyddiau Gwastraff ar Wahân Terfynol ar gyfer Ailgylchu:Cod Ymarfer i Gymru* sy'n nodi canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu hefyd yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd i Reoliadau Gofynion

Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023. Gellir gweld manylion llawn yr ymgynghoriad ar y cod yma. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig pellach i rybuddio Aelodau pan gyhoeddir y Cod terfynol.

Mae'r canllawiau, ac adnoddau eraill ar gyfer gweithleoedd a chasglwyr gwastraff, ar gael ar-lein yma: https://www.llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle
Edrychaf ymlaen at drafod ag Aelodau'r Senedd wrth ystyried yr OSau yn ystod y mis nesaf.